**C  Allai wisgo fy nheclyn clyw i wersi ymarfer corff?**

A Mae'n syniad da i wisgo y teclynnau yn rheolaidd yn arbennig mewn gwersi addysg corfforol  gan y byddi yn gwrando a siarad a dy ffrindiau. Oes oes gen ti broblem yn ddefnyddio'r teclynnau wrth redeg o gwmpas, gofyn am gyngor pellach gan dy athrawes nam clyw.

**C Ydw i angen glanhau fy nheclynnau clyw?**

A Mae'r 'mould' yn gallu mynd yn fudur. Mae hyn yn hollol arferol. Gellir tynnu y mould o'r teclyn clyw a'i olchi mewn dwr cynnes ac yna ei adael i sychu ( dim ar ben le cynnes fel  gwresogydd)

C. **Mae na ddwr tu fewn i'n nhiwb, beth ddyliwn i wneud?**

A. Defnyddia dy 'puffer' i  chwythu allan unrhyw ddwr sydd yn y tiwb.'



**C. Pryd ddyliwn i newid y batris?**

A. Fe ddylai dy declynnau clyw wneud swn 'beep' pam fo'r batris yn isel. Bydd hyn yn rybudd iti bod angen newid y batris pam gei di gyfle e.e ar ddiwedd y wers. Mae'n syniad da hefyd newid y batris ar ddechrau bob wythnos.Os nad oes gen ti fatri sbar, holi dy athro/athrawes/ derbynfa'r ysgol.

**C. Lle dyliwn i gadw fy matris sbar?**

A. mae'n bwysig cadw nhw mewn lle saff yn bell o ddwylo plant ifanc. Mae derbynafa  ysgol yn le da.

C. **Be dwi'n neud os oes problem gyda fy nheclyn clyw?**

A. Gofyn i oedolyn adref /staff ysgol wrando ar y teclyn.

Byddai werth trio:

- Newid batri
- Glanhau y 'mould'
- Sychu y tiwb hefo'r 'puffer'

Os yw'r broblem yn parhau gellir gofyn i oedolyn ffonio dy athrawes nam clyw , neu ymweld a'r adran awdioleg yn yr ysbyty

Dy athrawes nam Clyw yw -

# Gwasanaeth Nam Clyw

Gwybodaeth **i ddisgyblion** ( cynradd ag Uwchradd ) sydd newydd dderbyn teclyn clyw



Mae’r llyfryn hwn wedi cael ei gynhyrchu gan y gwasanaeth Nam clyw ar y cyd â disgyblion ysgol sydd eisoes yn gwisgo teclynnau clyw.(Diolch i bawb am eu help wrth lunio’r cwestiynau)

***Am unrhyw fanylion pellach cysylltwch â:***


Athrawon arbenigol Nam Clyw,

Swyddfa addysg,

Pencadlys

Caernarfon

Athrawon arbenigol:

- Denise Hughes
- Jacqueline Adams
- Siân Mathias


**Dwi newydd gael teclynnau Clyw ?Pam ?**

Yn dilyn dy ymweliad i’r adran awdioleg i gael prawf clyw, mae’r ysbyty wedi dweud dy fod angen teclyn clyw er mwyn helpu i ti glywed rhai synau yn well . Bydd y teclyn clyw yn gwneud gwrando yn haws iti.

**A fydd y teclynnau Clyw yn fy helpu?**

Efallai y bydd y teclynnau clyw yn teimlo’n rhyfedd ar y cychwyn. Fe fu di yn gallu clywed yn llawer gwell ac efallai bydd hi’n haws iti glywed be’ mae pobl yn ddweud. Bydd hyn yn dy helpu yn yr ysgol, hefo dy ffrindiau ac adref. Efallai y byddi di yn clywed rhai synau nad wyt wedi clywed o’r blaen.

**Be ydi teclyn clyw?**

Mae teclynnau o bob siâp a lliw, ond ar bob teclyn bydd meicroffon, gofod i’r batri ac efallai botwn i addasu lefel y sŵn.

Dyma declyn clyw: Dyma’r ‘mould





Mae’r athrawon nam clyw yn dîm o athrawon arbenigol sy’n gweithio hefo nifer o blant a cholled clyw yng Ngwynedd ag Ynys Môn.

Mae’r ysbyty wedi rhannu hefo’r gwasanaeth dy fod wedi cael teclynnau clyw. Mi allaf ddangos iti sut i’w defnyddio, newid batris a sut iti wneud yn saff bod y teclynnau yn gweithio’n iawn. Byddaf yn siarad hefo dy deulu a dy athro/athrawes.

**C. Pa mor hir dwi angen gwisgo’r teclynnau?**

A. Mae dy declynnau clyw fel eitem newydd o ddillad iti. Pam ti’n codi yn y bore rhoi’r teclynnau i mewn. Pam mae hi’n amser gwely , tynna nhw allan.

C. **Ydw i yn gallu gwisgo nhw yn y gawod neu fath?**

A. Na, dylid tynnu’r teclynnau allan wrth fynd i unrhyw ddŵr. Gellir ei rhoi yn ôl i mewn pam wyt ti’n sych.

C. **Sut ydw i yn gwybod pa un sy’n mynd i’r glust chwith neu Dde?**

A. Mae gan rai teclynnau smotyn glas ar y teclyn chwith a smotyn coch i’r teclyn dde.

**Hefo pwy dwi'n gysylltu oes dwi eisiau help ?**

Mae’r gwasanaeth nam clyw yma i dy gefnogi.